# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU

## (O Bell Trwy Teams)

**Aelodau sy’n Bresennol:** **Dydd Mawrth, 25 Ionawr 2022**

| | |
|---|---|
| Cyngor Sir Gâr | Cynghorwyr E.Dole |
| Cyngor Abertawe | Cynghorwyr R.Stewart |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | Cynghorwyr E.V.Latham |
| Cyngor Sir Penfro | Cynghorwyr D.Simpson |
| Bannau Brycheiniog Parc Cenedlaethol | A.Edwards |
| Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | P.Harries |
| Swyddogion sy’n Bresennol: | W.Walters, P.Roberts, K.Jones, W.Bramble, C.O’Brien, T.Jones, S.Curran, C.Griffiths, G.Jones, C.Moore, R.Arnold a/ac M.Ronan |

---

## 1. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL - 13 IONAWR 2022

Diwygio'r presenoldeb ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i ddatgan Tegwyn Jones, Prif Weithredwr a'r Cyng. Paul Harries.

Diwygio'r Cyng. Aled Evans i Aled Edwards.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2022 gyda'r newidiadau uchod wedi'u cynnwys.

## 2. Y GYLLIDEB AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2022/23

Cyflwynwyd cyllideb arfaethedig Cyd-bwyllgor Corfforedig Rhanbarthol De-orllewin Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 i'r pwyllgor fel Atodiad A diwygiedig fel y'i cynhwysir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd ac fe'i hatgoffwyd bod gofyn iddynt yn ffurfiol bennu cyllideb erbyn 31 Ionawr 2022.

Yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2022, roedd aelodau wedi gwneud penderfyniadau allweddol yn unol â deddfwriaeth a chytunwyd ar gyllideb ddrafft. Cadarnhawyd dosraniad yr ardoll ar boblogaeth a oedd yn caniatáu i'r gyllideb ddrafft gael ei diwygio a gofynnwyd i aelodau nodi bod y gyllideb arfaethedig wedi disgyn o £715,000 i £575,000 a bod rhai elfennau wedi'u symud o gwmpas ychydig. Tynnwyd sylw'r aelodau at swm y gyllideb enwol a neilltuwyd i is-bwyllgorau ar y cam hwn, oherwydd heb wybod rhaglen waith union ar gyfer y flwyddyn, roedd yn anodd neilltuo ffigur manwl.

Gofynnwyd i'r pwyllgor nodi'r tybiaethau ynghylch cyfrifiadau fel y nodwyd ar dudalen 13 yr adroddiad, gan gynnwys bod y grant traddodiadol i gefnogi Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn cael ei weinyddu ar hyn o bryd gan Gyngor Abertawe. Yn ogystal, teimlwyd y byddai'n amhriodol gosod ardoll ar Barciau Cenedlaethol eleni gan fod y gwerth yn un de minimis o ran tâl.

Nododd y pwyllgor fod y gyllideb yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cefnogaeth weinyddol yn ogystal ag adeiladu cronfa wrth gefn.

Holwyd a ddefnyddiwyd y grant gwreiddiol i dalu am yr holl wariant ac a oedd unrhyw arian ar ôl. Cadarnhawyd bod elfennau o'r grant ar gael o hyd a'i fod yn cael ei weinyddu gan
Gyngor Abertawe gan ei fod wedi'i drefnu cyn bod cyfrifoldeb A151 wedi'i roi i Sir Gâr ac y bydd yn parhau i fod ym meddiant Abertawe at ddibenion gweinyddol.

**PENDERFYNWYD:**

- Cymeradwyo'r gyllideb a amlinellwyd yn Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd.
- Cymeradwyo gofyniad y gyllideb ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig Rhanbarthol De-orllewin Cymru sef £575,411.
- Cymeradwyo'r Tâl Ardoll yn seiliedig ar boblogaeth fel y'i cynhwysir yn yr adroddiad.

**CADEIRYDD**